**Cyngor Bro Morgannwg**

**Polisi Cofrestr Genedlaethol Dirymu a Gwrthod Trwyddedau Tacsis (NR3).**

Dyddiad Cymeradwyo: 15/12/2020

Mae’r polisi hwn yn ymwneud â sut y bydd Cyngor Bro Morgannwg fel yr Awdurdod Trwyddedu’n yn defnyddio’r gallu i gyrchu a defnyddio gwybodaeth sydd yn y Gofrestr Genedlaethol Dirymu a Gwrthod Trwyddedau Tacsis (NR3), sef mecanwaith er mwyn i awdurdodau trwyddedu rannu manylion pobl sydd wedi cael diddymu eu trwydded cerbyd hacni neu Gerbyd Llogi Preifat (PHV) neu os gwrthodwyd cais am drwydded. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu er mwyn gweithredu awdurdod swyddogol yr awdurdod trwyddedu, hynny yw, asesu a yw person yn addas a phriodol i gael trwydded cerbyd hacni neu gerbyd llogi preifat.

Cyflogir swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ac mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu fel y rheolwr data ynglŷn â'r swyddogaethau a gyflawnir ar ran yr Awdurdod Trwyddedu.

Mae'r NR3 yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw wrthodiad i roi, neu ddirymu, trwydded gyrrwr tacsi. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig yng nghyd-destun cais dilynol i awdurdod arall am drwydded gyrwyr gan berson y gwrthodwyd neu ddirymu ei drwydded yn y gorffennol.

Drwy gydol y polisi hwn cyfeirir at 'drwydded gyrrwr tacsi'. Mae'r term generig hwn yn cynnwys trwydded gyrrwr cerbyd hacni, trwydded gyrrwr llogi preifat a thrwydded gyfun/deuol.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymuno â'r NR3. Mae hyn yn golygu, pan wrthodir cais am drwydded gyrrwr tacsi, neu pan gaiff trwydded gyrrwr tacsi sy'n bodoli eisoes ei dirymu, y bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhoi ar y gofrestr.

Caiff y wybodaeth a gofnodir ar yr NR3 ei hun ei chyfyngu i:

- Enw
- Dyddiad geni
- Cyfeiriad a manylion cyswllt
- Rhif yswiriant gwladol
- Rhif Trwydded Yrru
- Penderfyniad a wnaed
- Dyddiad y penderfyniad
- Dyddiad y daeth y penderfyniad i rym

Cedwir gwybodaeth ar yr NR3 am 25 blynedd. Cedwir y wybodaeth gan systemau'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd data’n cael ei gadw ar y gofrestr i helpu Awdurdodau Trwyddedu i gyflawni eu dyletswydd statudol i fod yn fodlon bod person yn addas a phriodol i feddu ar drwydded cerbyd hacni neu logi preifat. Nodir y dyletswyddau hyn dan adrannau 51, 59 a 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; adrannau 13, 16 a 17 o Ddeddf Cerbydau Llogi Preifat (Llundain) 1998; adran 3 o Reoliadau Cerbydau Llogi Preifat (Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Llogi Preifat Llundain) 2003; adrannau 25 a 30 o Orchymyn Cab Llundain 1934; adrannau 9 a 19 o Ddeddf Cyngor Dinas Plymouth 1975 ac adran 46 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. Yn unol â’r diben hwn, bydd data’n parhau ar NR3 am 25 mlynedd

**Egwyddorion cyffredinol**

Pan dderbynnir cais am drwydded gyrrwr newydd, neu adnewyddu trwydded gyrrwr sy'n bodoli eisoes, bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn chwilio yn yr NR3. Dim ond swyddog sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r NR3 ac sy'n gweithredu yn unol â'r polisi hwn fydd yn gwneud y chwiliad. Os gwelir bod manylion yr ymddengys eu bod yn ymwneud â'r ymgeisydd, gofynnir i'r awdurdod a roddodd y wybodaeth honno am ragor o fanylion.

Defnyddir unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan unrhyw awdurdod arall yn ymwneud â chais ar gyfer y cais hwnnw'n unig, a'i benderfyniad, ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Dim ond cyhyd ag sy'n angenrheidiol mewn perthynas â phenderfynu ar y cais hwnnw y bydd unrhyw ddata a dderbynnir yn cael ei gadw. Bydd hyn yn cynnwys y cyfnod prosesu'r cais hwnnw, gwneud penderfyniad, hysbysu'r ymgeisydd o ganlyniad y penderfyniad hwnnw, a'r prosesau apelio.

Er mwyn osgoi amheuaeth, caiff unrhyw ddata o'r fath ei gadw am gyfnod o ddim mwy na 35 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y cais.

Pan wneir apêl i'r llys ynadon, bydd y data'n cael ei gadw nes y penderfynir neu y rhoddir y gorau i'r apêl honno. Pan benderfynir ar yr apêl gan y llys ynadon, mae hawl arall i apelio i Lys y Goron. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y data'n cael ei gadw am gyfnod o ddim mwy na 35 diwrnod o ddyddiad penderfyniad y llys ynadon. Os gwneir apêl i Lys y Goron, bydd y data'n cael ei gadw nes y penderfynir neu y rhoddir y gorau i'r apêl honno. Pan benderfynir ar yr apêl gan y llys ynadon neu Lys y Goron, mae'n bosibl apelio yn erbyn y penderfyniad drwy achos a nodir. Yn unol â hynny, bydd y data'n cael ei gadw am gyfnod o ddim mwy na 35 diwrnod o ddyddiad penderfyniad Llys y Goron (pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud gan y llys ynadon, mae'r cyfnod cadw eisoes wedi cael sylw). Os penderfynir ar apêl drwy'r achos a nodir, bydd y data'n cael ei gadw nes bod yr holl achosion llys sy'n ymwneud â'r apêl honno ar achos a nodir (a fydd yn cynnwys apeliadau posibl i'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys) wedi'u penderfynu.

Bydd y data'n cael ei gadw'n ddiogel yn unol â pholisi cyffredinol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gadw data personol yn ddiogel ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn:

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Ar ddiwedd y cyfnod cadw, caiff y data ei ddileu a/neu ei ddinistrio yn unol â pholisi cyffredinol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar ddileu a dinistrio data personol.

**Chwilio'r NR3 am ymgeiswyr**

Pan wneir cais i Gyngor Bro Morgannwg am roi trwydded gyrrwr tacsi newydd, neu adnewyddu trwydded gyrrwr tacsi, bydd y Cyngor yn gwirio'r NR3.

Bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud ac yna'n cadw cofnod ysgrifenedig clir o bob chwiliad a wneir o'r gofrestr. Bydd hyn yn manylu ar:

- Dyddiad y chwiliad;
- Yr enw neu'r enwau a chwiliwyd;
- Y rheswm dros chwilio (cais newydd neu adnewyddu);
- Canlyniadau'r chwiliad; a
- Y defnydd a wneir o ganlyniadau'r chwiliad (bydd y wybodaeth hon yn cael ei nodi ar y gofrestr yn ddiweddarach).

Ni chaiff y cofnod hwn ei gyfuno ag unrhyw gofnodion eraill (h.y. ynghyd â chofrestr o drwyddedau a roddwyd) a chaiff ei gadw am y cyfnod cadw o 25 mlynedd.

Os bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn darganfod unrhyw gyfatebiaeth (h.y. mae cofnod yn y gofrestr ar gyfer yr un enw a manylion adnabod) bydd cais yn cael ei wneud i'r awdurdod a roddodd y manylion hynny (yr awdurdod cyntaf) am ragor o wybodaeth am y cofnod hwnnw. Bydd y cais hwnnw hefyd yn cynnwys manylion polisi diogelu data'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir mewn perthynas â defnyddio unrhyw ddata a geir o ganlyniad i'r broses hon.

Bydd y cais hwn yn cael ei wneud yn ysgrifenedig yn unol â'r ffurflen yn Atodiad 1 i'r polisi hwn.

Caiff ei bostio neu ei e-bostio i gyfeiriad cyswllt yr awdurdod a roddodd y manylion hynny (yr awdurdod cyntaf) a fydd yn cael eu nodi yn y gofrestr.

**Ymateb i gais a wnaed am ragor o wybodaeth am gofnod ar NR3**

Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn cais am ragor o wybodaeth gan awdurdod arall, bydd cofnod ysgrifenedig clir yn cael ei wneud o'r cais sydd wedi dod i law. Ni chaiff y cofnod hwn ei gyfuno ag unrhyw gofnodion eraill (h.y. ynghyd â chofrestr o drwyddedau a roddwyd) a chaiff ei gadw am y cyfnod cadw o 25 mlynedd.

Yna, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu sut i ymateb i'r cais. Nid yw'n gyfreithlon darparu gwybodaeth fel ymateb cyffredinol i bob cais.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw gais o dan delerau Deddf Diogelu Data 2018 a bydd yn ystyried sut y bydd yr awdurdod arall (yr ail awdurdod) yn defnyddio'r data, sut y bydd yn storio'r data hwnnw i atal datgeliad anawdurdodedig, y cyfnod cadw ar gyfer y data hwnnw, a'r mecanwaith ar gyfer dileu neu ddinistrio'r data ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Os yw'r ail awdurdod wedi mabwysiadu polisi tebyg i hyn, disgwylir y dylai hynny fod yn broses weddol syml.

Os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod gweithdrefnau diogelu data'r awdurdod arall (yr 2il awdurdod) yn foddhaol, yna rhoddir ystyriaeth i ba wybodaeth fydd yn cael

ei datgelu. Penderfynir ar hyn gan swyddog sydd wedi'i hyfforddi i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Rhaid ystyried unrhyw ddatgeliad a'i fod yn gymesur, gan ystyried hawliau gwrthrychau'r data a sefyllfa a chyfrifoldebau gyrrwr tacsi. Caiff data ei gadw ar gofrestr NR3 am gyfnod o 25 mlynedd, ond ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â phob cofnod. Caiff pob cais ei ystyried ar ei rinweddau ei hun.

Bydd unrhyw wybodaeth am euogfarnau yn cael ei rhannu yn unol â'r polisi hwn o dan ran 2 o atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018; hynny yw, mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth a roddir i'r awdurdod gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol.

Bydd y swyddog yn cofnodi pa gamau a gymerwyd a pham. Bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud ac yna'n cadw cofnod ysgrifenedig clir o bob penderfyniad a wneir o ganlyniad i gais gan awdurdod arall. Bydd hyn yn manylu ar:

- Y dyddiad y derbyniwyd y cais
- Sut y cynhaliwyd yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data a'i gasgliadau
- Yr enw neu'r enwau a chwiliwyd
- A ddarparwyd unrhyw wybodaeth
- Os darparwyd gwybodaeth, pam y'i darparwyd (a manylion unrhyw gyngor pellach a gafwyd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud)
- Os na ddarparwyd gwybodaeth, pam na ddarparwyd (a manylion unrhyw gyngor pellach a gafwyd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud)
- Sut a phryd y cafodd y penderfyniad (ac unrhyw wybodaeth) ei gyfleu i'r awdurdod sy'n gwneud cais.

Ni chaiff y cofnod hwn ei gyfuno ag unrhyw gofnodion eraill (h.y. ynghyd â chofrestr o drwyddedau a roddwyd) a chaiff ei gadw am y cyfnod cadw o 25 mlynedd.

**Defnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i gais i awdurdod arall**

Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn gwybodaeth o ganlyniad i gais a wnaed i awdurdod arall, bydd yn ystyried y wybodaeth honno wrth benderfynu ar y cais am grant neu adnewyddu trwydded gyrrwr tacsi. Bydd hyn yn unol â'r broses arferol ar gyfer penderfynu ar geisiadau.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud ac yna'n cadw cofnod ysgrifenedig clir o'r defnydd a wneir o ganlyniadau'r chwiliad (ychwanegir y wybodaeth hon at y gofrestr a nodir uchod).

Gall gwybodaeth a dderbynnir gyfiawnhau rhoi pwys sylweddol arno, ond nid dyma'r unig sail ar gyfer unrhyw benderfyniad y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ei wneud mewn perthynas â'r cais.

**Atodiad 1 - ffurflen datgelu gwybodaeth**

Cyflwynir y ffurflen hon yn dilyn chwiliad o'r Gofrestr Genedlaethol o Wrthod a Dirymiadau (NR3).

Enw'r awdurdod trwyddedu yn gofyn am wybodaeth: .........

Cyfeirnod yr awdurdod sy'n gwneud cais: ........

Enw'r awdurdod trwyddedu y ceisir gwybodaeth ohono: .........

Enw'r unigolyn y gwnaed y cais ynglŷn ag ef: ..........

Penderfyniad y gwnaed y cais ynglŷn ag ef: Gwrthod / dirymu

Manylion eraill ar gyfer y cofnod hwn: .......

Cyfeiriad: …….

Trwydded yrru # ……..

Rhif Yswiriant Gwladol:

Cyfeirnod:

**Datganiad gan yr awdurdod sy'n gwneud y cais:**

Mae'r awdurdod drwy hyn yn cadarnhau bod y wybodaeth hon yn cael ei cheisio mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaeth statudol i sicrhau bod deiliaid trwyddedau tacsis / cerbydau llogi preifat yn bobl addas a phriodol, a bod prosesu'r data hwn felly yn angenrheidiol wrth gyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd.

Bydd y wybodaeth a ddarperir isod ond yn cael ei phrosesu, ei defnyddio a'i chadw gan yr awdurdod mewn cysylltiad â'r cais penodol hwn ac yn unol â'r holl ofynion data a phreifatrwydd perthnasol, fel y cynghorwyd yn flaenorol gan yr awdurdod i ymgeiswyr am drwyddedau tacsi a cherbydau llogi preifat a deiliaid presennol trwyddedau tacsis a cherbydau llogi preifat, a chaiff ei gadw yn unol â pholisi cadw'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth o'r fath.

Er mwyn galluogi'r awdurdod i gynnal asesiad wrth ddatgelu, gellir gweld manylion polisi'r awdurdod hwn mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth a gafwyd o ganlyniad i'r cais hwn yn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Public-Notices/Fair-Processing-Notice-Licensing.pdf

Llofnod:

Enw:

Swydd:

Dyddiad

(I'w gwblhau drwy ddarparu awdurdod) Rhagor o wybodaeth i gefnogi'r penderfyniad a gofnodwyd ar NR3 mewn perthynas â'r unigolyn a enwir uchod

**Datganiad gan yr awdurdod sy'n darparu**

Mae'r awdurdod drwy hyn yn cadarnhau ei fod wedi cynnal asesiad.

Mae hefyd yn cadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir, a'i bod wedi'i darparu ar ôl i'r awdurdod ystyried cymesuredd a chyfreithlonrwydd gwneud y datgeliad hwn yn drylwyr. Mae'r wybodaeth yn adlewyrchu ar ba sail y gwnaed y penderfyniad a gofnodwyd yn y Gofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau a Dirymiadau. Os daw'r awdurdod yn ymwybodol nad yw'r wybodaeth hon yn gywir mwyach, byddwn yn cynghori'r awdurdod a enwir uchod yn unol â hynny.

Mae'r awdurdod hefyd yn cadarnhau, fel rhan o'r sail ar gyfer sicrhau, cadw neu wneud cais am drwydded tacsi / cerbyd llogi preifat, fod yr unigolyn uchod a enwir wedi cael gwybod am y ffaith y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu, yn unol â'r holl ofynion data a phreifatrwydd perthnasol

Llofnod:

Enw:

Swydd:

Dyddiad: